



Enwau'r Ardal Leol

Caerdydd a'r Fro 2019

Mae dwy ardal yn cyd-groesawu'r Eisteddfod eleni, sef **Caerdydd** a **Bro Morgannwg**. Cyn iddi dyfu'n dref fawr, fe ystyrir Caerdydd yn rhan o'r Fro. Ond bellach mae wedi ymwahanu a hefyd ymledu dros afon Rhydymni i'r hen sir Fynwy. Ers 1938, felly, mae talp o ardal hanesyddol **Gwynllŵg** (a enwyd ar ôl y sant Gwynllwy) yn rhan o'r ddinas fodern. Ardal sy'n gysylltiedig â rhywun o'r enw Morgan yw ystyr **Morgannwg** a 'gwlad Morgan' yw tarddiad **Glamorgan**. Nid yw'n glir pwy yn union oedd y Morgan hwn, ond y tebyg yw

mai un o frenhinoedd cynnar yr ardal ydoedd: naill ai Morgan ab Athrws o'r wythfed ganrif neu'r Morgan Hen a fu farw yn 974.

Mae'r enw **Caerdydd** yn hŷn eto. 'Y gaer ar afon Taf' yw'r ystyr, a'r ffurf ganoloesol oedd **Caerdyf**. Ond pam **Caerdyf** ac nid **Caerda**? Mae'r rheswm yn ymwneud â'r ffaith fod yr enw yn deillio o'r Frythoneg, iaith a siaredid ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ac a ddatblygodd dros amser nes troi'n Gymraeg. Enw diweddarach yw **Llandaf**, sef 'yr eglwys

ar afon Taf'. Benthyciwyd yr enwau hyn i'r Saesneg gan droi'r *-f* yn *-ff*: *Taff*, *Cardiff* a *Llandaff*.

Un o enwau hynaf y Fro yw **Ewenni**, sy'n cyfeirio at afon a phentref hardd. Mae'n bosib ei fod yn tarddu o iaith a siaredid yng Nghymru cyn y Frythoneg, hyd yn oed. Yr un enw, yn ôl pob tebyg, a welir yn Avance (Ffrainc), Avenches (y Swistir) ac Avenza (yr Eidal). Mae'n bosibl fod **Pentyrch** yn tarddu o gyfnod y Frythoneg; mae'r enw'n ymwneud â thyrchod (sef moch gwyllt) mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ond nid oes a wnelo **Penarth** ag eirth, er gwaethaf y traddodiadau lleol. Ystyr *garth* yw pentir neu fryn; yr un gair sydd yn enw mynydd y **Garth** a phentref **Gwaelod-y-garth**. Ac nid potes yw'r *cawl* yn **Porthcawl** ond yn hytrach blanhigyn sydd hefyd yn dwyn yr enw 'bresych y môr'. Mae'n ymddangos mai nant (o bosib o'r enw Barren) sy'n esbonio enw tref y **Barri**, er bod traddodiadau lleol am sant o'r enw Barrow (neu Baruc, mewn hen sillafiad).


Yn ogystal â Llandaf, mae nifer o safleoedd eglwysig eraill yn yr ardal. Un o'r mwyaf nodedig yw **Llanilltud Fawr** a enwyd ar ôl Illtud Sant. Ers talwm, roedd ffurf arall ar enw'r sant: *Illtwyd*. Honno yw sail y ffurf Saesneg *Llantwit*. Mae **Llanrcarfan** hefyd yn safle eglwysig ac iddo hanes cyfoethog. Ond yn wreiddiol, *Nant Carfan* oedd enw'r lle hwn — datblygiad diweddarach oedd troi'r *nant* yn *llan*. Ymhlith y 'llannau' eraill y mae dau bentref o'r enw **Llandochau**: y naill ger Penarth (Llandochau Fach) a'r llall ger y Bont-faen (Llandochau'r Bont-faen). Yr un enw sydd i'r ddau yn Saesneg hefyd, sef *Llandough*, er bod yr ynganiad yn wahanol. Ar gyfer yr un ger Penarth dywedir 'lan-dock' ond 'lan-duff' yw'r un ger y Bont-faen. Tebyg mai Dochan yw'r sant yn yr enwau hyn. Rhaid gochel hefyd rhag cymysgu'r rhain â phentref arall ag enw nid annhebyg yn ei ffurf Saesneg, sef **Llandw** (*Llandow* yn Saesneg). Ffurf amrywiol ar *Duw* sydd yma. Enw arall â seiliau crefyddol yw **Radur** yng ngogledd Caerdydd, o'r Lladin *oratorium* (oratori neu gapel).

Un o'r pethau mwyaf nodedig am hanes ieithyddol Bro Morgannwg yw'r modd y mae enwau Cymraeg a Saesneg yn gweu i'w gilydd. Y rheswm am hyn yw bod cynifer

o Saeson wedi ymsefydlu yno yn ystod yr Oesoedd Canol. Ceir ambell enw Ffrangeg hefyd: *beau repaire* ('encilfan hardd') sydd i'w weld yn y **Bewpyr** ar lannau afon Ddawan (Saesneg *Beaupre*, a yngenir fel *Bewper*). Mae'n debyg mai'r bont garreg dros afon Ddawan yw'r un y cyfeirir ati yn enwau y **Bont-faen** a *Cowbridge*. Yn **Aberddawan** y mae'r afon honno'n cyrraedd y môr; yn Saesneg, yr enw yw *Aberthaw*. Yn draddodiadol, yngenid y sillaf olaf fel 'ddo', ond bellach mae'r ynganiad 'tho' yn fwy cyffredin. Mae'n debyg mai dylanwad Saesneg sydd yn gyfrifol am natur y llafariad yn y **Rhws** (sy'n ffurf ar *rhos*).

Ond gwahanu a wnaeth y Saesneg yn yr ardal hon wedi'r Oesoedd Canol — fe'i disodlwyd i raddau helaeth gan y Gymraeg. Gwelir y broses hon ar waith yn yr enwau lleoedd. Er enghraifft, mae nifer o bentrefi yn y Fro sy'n cynnwys yr elfen Saesneg *saint*, a fenthyciwyd i'r Gymraeg fel *sain(t)*. Dyna ichi **Saint Hilari** (*St Hilary*) a **Sain Nicolas** (*St Nicholas*), er enghraifft. Erbyn dechrau'r 19eg ganrif mae'n amlwg mai'r Gymraeg oedd prif iaith y plwyfi hyn. Byddai'r bobl leol yn ynganu'r enwau mewn dull Cymreig, gyda'r pwyslais ar y goben, sef y sillaf olaf ond un. Felly *Saint Hilari* a *Sain Nicolas* (neu *Shinicolas*) a ddywedai hen Gymry'r fro. Yn achos **Sain Tathan**, fe gamrannwyd yr enw yn Saesneg i roi *St Athan*, er mai Tathan oedd enw'r sant. Diddorol hefyd yw'r ddau bentref o'r enw **Sain Dunwyd** a **Llandunwyd**, sef *St Donats* a *Welsh St Donats* yn Saesneg. Cymry ac arferion cymdeithasol Cymreig a oedd yn nodweddu'r ail gynt, ond cymeriad Seisnig a oedd i'r cyntaf.

Prawf arall o gryfder cynnar y Saesneg yn y Fro yw'r enwau sy'n cynnwys enw personol a'r elfen *-ton* ('fferm' neu 'annedd'): *Cadoxton* (Cadog neu Catwg), *Candleston* (Cantelo), *Colwinston* (Colwyn), *Flemingston* (Fleming), *Sigingstone* (Sigin), a *Bonvilston* (Boneville). Cymreigiwyd y rhain yn ddiweddarach drwy drosi'r *ton* yn *tref*: **Tregatwg**, **Tregawntlo**, **Tregolwyn**, **Trefflemin**, **Tresigin**. Yn achos Bonvilston, fe ddefnyddiodd y Cymry enw cyntaf ac nid cyfenw wrth lunio **Tresimwn**. Daw **Tre-os** o *Goston*, sef 'fferm y gwyddau'. Cymreigio'r ynganiad a wnaed wrth droi



Gileston ('fferm Joel') yn **Silstwn**. Enwau cymharol ddiweddar yw'r rhain, ond mae rhai enwau sy'n dechrau â *tref* yn hŷn, megis **Tredelerch** yn nwyrain Caerdydd (Saesneg *Rumney*), sef fferm gŵr o'r enw Telerch, a **Treoda**, sef fferm rhywun o'r enw Oda. **Waun Treoda** yw'r enw Cymraeg ar *Whitchurch Common* yn yr **Eglwys Newydd** yng ngogledd Caerdydd; codwyd yr eglwys newydd i gymryd lle'r eglwys wen (y 'whitchurch') gynharach. Enw Saesneg arall sydd i'w gael yn y Fro yw *Splott* ger Tregolwyn. Ond mwy enwog yw'r **Sblot** yng Nghaerdydd. Hen air yn golygu llain o dir yw *spot*. Nid oes unrhyw wirionedd yn y gred mai talfyriad o 'God's Plot' ydyw!

Gan ein bod bellach yn ôl yng Nghaerdydd, gadewch inni fwrw golwg ar rai o enwau'r ddinas. Yn nesaf at y Sblot y mae

Adamsdown, gweundir a fu'n gysylltiedig â gŵr o'r enw Adam. Rhan o blwyf hanesyddol y **Rhath** yw'r ddau le hyn. Gall mai benthyciad o air Gwyddeleg am gaer sy'n esbonio'r enw hwnnw, neu efallai fod cyswllt rhyngddo a'r ferf *rhathu* 'crafu, sgwrio'. Os felly, tebyg mai enw nant ydoedd yn wreiddiol.

Enw'r ardal lle y mae'r Ysbyty Athrofaol yw'r **Mynydd Bychan** — tir comin yw ystyr 'mynydd' yma. Ei enw yn Saesneg yw *Heath* (yn hanesyddol *The Great Heath*). Pan gaewyd y tir comin oddeutu 1800 aeth yr enw Cymraeg bron yn angof ac yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif y ffurf Gymraeg fwyaf cyfarwydd ar yr ardal oedd y *Waun* (cyfieithiad uniongyrchol o'r Saesneg *Heath*). Ond erbyn heddiw y mae ward etholiadol ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn dilyn yr enw *Mynydd Bychan* ac mae'n ffurf gyfarwydd

unwaith eto.

Tir comin oedd y **Waun Ddyfal** hithau, yn Saesneg gynt *The Little Heath*; gall mai 'gwyllt' yw ystyr *dyfal* yma. Mae'n anodd pennu ei hunion ffiniau erbyn heddiw, ond yn fras, fe'i lleolid yn yr ardal rhwng Heol Fair oak, Heol Ninian, Heol Wellfield, Heol Albany a Heol y Crwys. Mae'r enw yn gyfarwydd i lawer yn sgil sefydlu Aelwyd y Waun Ddyfal gan fyfyrwyr a phobl ifanc Caerdydd. Ardal sy'n nes at ganol y ddinas yw **Cathays**, sydd efallai'n cyfeirio at lecynnau caeedig (Saesneg *hays*) a oedd yn denu cathod. Enwyd **Grangetown** ar ôl hen fferm y Grange (sy'n sefyll hyd heddiw) a fu gynt yn un o ystadau Abaty Margam. Bathiad gan y diweddar hanesydd John Davies yw'r *Trelluest* a welir o bryd i'w gilydd.

Mae'r enw **Pontcanna** i'w gael yn yr 17eg ganrif, ond mae'n anodd ei esbonio: pwy neu beth oedd *Canna* neu *canna*? Santes, meddai lolo Morganwg; nant fechan meddai eraill. A beth yw'r berthynas rhwng *canna* a'r *can* yn *Canton* gerllaw? Beth bynnag yw'r ateb, mae *Canton* yn hen enw sydd yn mynd yn ôl i'r 13eg ganrif, o leiaf. Ond newyddian yw **Treganna** — nid oes enghraifft hysbys o'r enw hwnnw cyn 1900. *Cantwn* a ddywedai hen Gymry'r ardal ers talwm, ond ni chlywir hynny bellach.

O deithio i'r gorllewin i Dreganna mae'r enwau'n mynd yn haws i'w hesbonio. Y fferm ar afon Elái yw **Trelái** (*Ely* yw enw'r afon a'r faestref yn Saesneg). Gallwn gysylltu'r enw **Caerau** â'r fryngaer o Oes yr Haearn sydd bellach yn edrych i lawr ar yr A4232. Croesffordd ger colomendy yw **Croes Cwrlwys** (*Culverhouse Cross*: daw *cwrlwys* o'r Saesneg *culverhouse* — hen air am golomen yw *culver*). Mae'r **Tyllgoed** (Saesneg *Fairwater*) yn deillio o enw nant a dorrai trwy'r coed yno ers talwm, neu efallai o'r arfer o annog gwenyn i ymgartrefu mewn coed tyllog.

Fferm Paen neu Payn (enw Normanaidd) sy'n sail i **Pentre-baen**. Ond sylwer mai ei enw gwreiddiol oedd *Cefntre-baen*. Mae'r elfen *cefn* i'w gweld mewn enw ardal arall o Gaerdydd, sef **Cyncoed**. Yn wreiddiol, *Cefn-coed* oedd hwn, a newidiodd yn *Cen-*

coed ac wedyn yn *Cyn-coed*. Anaml y gwelir y sillafiad Saesneg *Kingcoed* erbyn heddiw. Rhywbeth wedi ei losgi sy'n cyfrif am y *poeth* yn **Pentre-poeth**, mae'n debyg. Mae gan y lle hwnnw ddau enw Cymraeg — mae'r llall, sef **Treforgan**, yn coffáu'r tîrfeiddianwr Morgan Williams (m. 1852), ac felly hefyd yr enw Saesneg *Morganstown*. Haws eto yw dirnad tarddiad **Creigiau**. A hen lys wedi ei adeiladu o gerrig a oedd yn **Llys-faen** ganrifoedd yn ôl. Ond nid yw'n glir beth yw'r ail elfen yn **Rhiwbina** / **Rhiwbeina**. Roedd y Cymry a siaradai'r dafodiaith leol yn ynganu'r enw hwn i odli ag enw'r ddioid *Ribena*. Erbyn heddiw, mae'r ynganiad Cymraeg arferol yn odli â *Tseina*. Ond mae'n debyg nad yw hynny ond Cymreigiad o'r ynganiad Saesneg sy'n odli â *China*! Dyna ichi beth yw natur ieithyddol gymysg ein prifddinas.

Dal i dyfu y mae Caerdydd a'r Fro. Pan ddaw'r Eisteddfod i'r ardal unwaith eto, gobeithio y bydd modd adrodd ar gyfoeth o enwau lleoedd newydd — a'r rheini'n rhai Cymraeg!

Dylan Foster Evans

